Newydd

Y Safon Gwasanaeth Rheolaeth Stad

Gwasanaethau Stad

Byddwn yn:

- Ymweld â'ch stad bob 4 wythnos i edrych ar ei chyflwr.
- Archwilio eich cymdogaeth bob chwarter gyda'ch cynrychiolydd tenantiaid lleol.
- Gadael i chi wybod ddwy wythnos cyn cynnal archwiliad stad.
- Ymwybodol o ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth ar ein stadau a rhoi adroddiad o fewn 24 awr.
- Rhoi sticeri ar gerbydau heb dreth ac a adawyd ar ein tir o fewn 3 diwrnod o gael ein hysbysu.
- Newid y bylbiau golau yn ein holl oleuadau stad o fewn 7 diwrnod o gael ein hysbysu. Caiff clociau amser eu newid i wneud yn siŵr eu bod yn dod ymlaen pan fydd wedi tywyllu. Byddwn yn trefnu atgyweirio unrhyw oleuadau diffygiol sy'n gyfrifoldeb i ni o fewn 1 diwrnod o gael ei hysbysu.
- Symud llwythi sbwriel a adawyd yn anghyfreithlon o'n tir o fewn 7 diwrnod o gael ein hysbysu.
- Codi tâl ar unrhyw berson sy'n gyfrifol am achosi difrod i'n heiddo neu adael sbwriel.
- Graeanu/rhoi halen ar ein llwybrau troed yn ystod cyfnodau o dywydd oer iawn.
- Gwneud yn siwr y caiff pob cartref y cawn ein hysbysu iddynt gael eu gadael eu hymchwilio o fewn 2 diwrnod.
- Cynnal arolwg bodlonrwydd ar hap gyda chi ddwywaith y flwyddyn.

Y Safon Gwasanaeth Rheolaeth Stad

Glanhau Ardaloedd Cymunol

- Byddwn yn ymweld â'ch bloc o leiaf 15 gwaith y flwyddyn.
- Caiff lloriau a grisiau eu hysgubo, golchi neu eu glanhau gyda pheiriant sugno yn dibynnu ar y gorchudd llawr.
- Ni fyddwn yn golchi'r llawr os oes cyfle y bydd yn rhewi mewn tywydd oer.
- Caiff wynebau cyffredinol megis banisters, canllawiau a byrddau sgyrtin eu dystio neu eu golchi.
- Tynnir gwe corynnod o nenfydau, waliau a ffitiadau golau.
- Caiff matiau a phydew matiau eu hysgubo pan fo angen.
- Caiff ffenestri a gwydr sy'n hygyrch yn yr ardaloedd cymunol eu glanhau, pan fo angen.
- Caiff ardaloedd biniau cymunol eu hysgubo a'u dadheintio.
- Caiff eich bloc ei archwilio am atgyweiriadau, difrod neu fandaliaeth a hysbysir hyn i'r Tîm Eiddo.
- Caiff sbwriel ei glirio o'r tu mewn a thu allan y bloc.
- Rhaid i chi gadw'r cyntedd a'r landin yn glir ar bob adeg. Ni fyddir yn symud unrhyw eitemau yn cynnwys bagiau o sbwriel, dodrefn, matiau llawr, carpedi neu unrhyw eitemau personol ar gyfer glanhau ac efallai na chânt eu glanhau. Hysbysir y Swyddog Tai am hyn er mwyn gweithredu pellach.
- Byddwn yn hysbysu'r Tîm Tai am unrhyw eitemau swmpus a gafodd eu gadael ar y stadau er mwyn eu symud. Medrir codi tâl am hyn.
- Medrwch hysbysu aelodau'r tîm glanhau am broblem. Byddant yn trosglwyddo'r eitem yn ôl i'r adran berthnasol erbyn y diwrnod gwaith nesaf.
- Byddwn yn cynnal arolygiadau heb rybudd ar y safon glanhau, a medrwn ffonio i siarad gyda chi am hyn.
- Byddwn yn anfon holiadur yn flynyddol i o leiaf 100 o breswylwyr sy'n derbyn y gwasanaeth hwn i wirio sut ydym yn gwneud a gofyn am unrhyw sylwadau neu awgrymiadau i wella'r gwasanaeth.

Y Safon Gwasanaeth Rheolaeth Stad

Cynnal a Chadw Tiroedd

Torri Glaswellt

- Byddwn yn torri gwair 16 gwaith y flwyddyn drwy gydol y tymor tyfu, gan gasglu'r glaswellt ar doriad cyntaf y flwyddyn yn unig, heblaw mewn rhai cynlluniau gwarchod.
- Byddir yn torri gwaith bob 2-3 wythnos fel nad yw'r glaswellt byth yn tyfu'n rhy hir.
- Caiff pob toriad gwair ei ysgubo neu ei chwythu o lwybrau troed a llwybrau cerdded yn syth ar ôl ei dorri.
- Caiff ymylon llwybrau troed eu chwistrellu a'u clirio o chwyn o leiaf unwaith y flwyddyn.
- Caiff y glaswellt ei strimio mor agos ag sydd modd i rwystrau megis coed, adeiladau neu feinciau.
- Symudir sbwriel o ardaloedd cyn torri glaswellt.
- Bydd contractwyr yn dweud lle buont yn gweithio ar sail wythnosol fel y medrir cynnal gwiriadau heb rybudd.

Ysgubo Strydoedd

- Caiff modurdai, ardaloedd parcio, llwybrau troed a llwybrau cerdded eu hysgubo deirgwaith y flwyddyn.
- Caiff yr holl sbwriel ei symud hyd at un metr ciwbig o'r lleoliad cyn ysgubo.
- Byddwn yn trefnu i glirio pentyrrau o sbwriel, sbwriel a adawyd yn anghyfreithlon neu eitemau swmpus pan gawn ein hysbysu amdanynt.
- Caiff chwyn ar darmac, palmentydd bloc a slabiau eu chwistrellu a'u rheoli fel bo angen yn ystod y broses ysgubo.
- Caiff canghennau sy'n gordyfu eu clirio a chaiff glasbrennau eu symud a chaiff lleiniau eu strimio.

Y Safon Gwasanaeth Rheolaeth Stad

Gwrychoedd

- Caiff pob gwrych cymunedol a ddynodwyd eu torri ddwywaith y flwyddyn a chaiff yr holl doriadau eu symud o'r safle.

Gwelyau a Borderi

- Cânt eu cynnal bedair gwaith y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys symud chwyn, tocio a thorri a nodi ardaloedd lle mae angen planhigion newydd neu ychwanegol.
- Caiff yr holl sbwriel ei symud o'r gwelyau a'r borderi.
- Caiff ochrau eu trimio a'u clirio.
- Rhoddir mwy o blisgyn coed bob blwyddyn i helpu i ostwng effaith tyfiant chwyn.
- Caiff coed o fewn yr ardaloedd hyn eu gwirio a gwneir mân waith cynnal a chadw.